

Gwireddu uchelgeisiau:

**Cynhorthwy cyflogaeth gwell ar gyfer
pobl â chyflwr iechyd meddwl**

Rhagfyr 2009

Arolwg ar ran y Llywodraeth gan
Rachel Perkins, Paul Farmer and Paul Litchfield



Adran Gwaith a Phensiynau

**Gwireddu Uchelgeisiau:
Cynhorthwy cyflogaeth
gwell ar gyfer pobl â chyflwr
iechyd meddwl**

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar
Orchymyn Ei Mawrhydi
Rhagfyr 2009

© Hawlfraint y Goron 2009

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfau Brenhinol a logos adrannol neu asiantaeth eraill) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac ni ddefnyddir ef mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod bod y deunydd yn ddarostyngedig i hawlfraint y Goron a rhaid manylu teitl y ddogfen.

Ble'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gaffael caniatâd y dalwyr hawlfraint perthnasol.

Er mwyn defnyddio'r deunydd hwn mewn unrhyw ddull arall, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â'r Swyddfa Gwybodaeth Sector Cyhoeddus, Tîm Polisi Gwybodaeth, Kew, Richmond, Surrey TW9 4DU neu anfon e-bost at: licensing@opsi.gsi.gov.uk.

ISBN: 9781849471299

Mae fersiwn lawn o'r cyhoeddiad hwn mewn fformat print safonol Saesneg ar gael oddi wrth siopau llyfrau TSO (Y Llyfrfa), ac mae ar gael yn ogystal ar-lein yn:

www.dwp.gov.uk/realising-ambitions

Neu, os gofynnir amdano oddi wrth:

Disability and Work Division
Department for Work and Pensions
Caxton House
Tothill Street
London SW1H 9NA
Teleffon: 020 7449 5539
E-bost: nick.mcgruer@dwp.gsi.gov.uk

Gellir trefnu bod copïau o'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau amgen os bo'r angen.

Cynnwys

Rhagarweiniad **5**

Crynodeb Gweithredol **9**

Nodiadau

Yr eirfa a ddefnyddir yn yr adroddiad

Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol

Defnyddir yr ymadrodd hwn er mwyn dynodi pob cyflenwr lechyd Cynradd, lechyd Meddwl Eilaidd, a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer pobl â chyflwr iechyd meddwl yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Cyflyrau iechyd meddwl

Defnyddir yr ymadrodd hwn i ddisgrifio pob anhwylder neu afiechyd meddwl sy'n bodloni meini prawf a dderbynnir yn gyffredinol ar gyfer diagnosis clinigol. Rydym wedi defnyddio'r gair 'cyflwr' yn hytrach na 'phroblem' neu 'salwch' er mwyn osgoi'r goblygiad fod y rhain bob amser yn broblem yn y gweithle. Mae llawer o bobl sydd â chyflyrau o'r fath yn gallu eu rheoli a gwneud yn dda mewn cyd-destun gwaith.

Gwasanaethau o fudd-dâl i waith

Defnyddir yr ymadrodd hwn i ddynodi Llwybrau at Waith neu'r Fargen Newydd Hyblyg, p'un ai y darparir y rhain gan y Ganolfan Byd Gwaith neu eu comisiynu gan sefydliadau sy'n gyflenwyr.

Dyfyniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad

- Oni bai y dywedir fel arall, mae'r dyfyniadau sy'n ymddangos yn yr arolwg hwn yn dod o bobl â chyflwr iechyd meddwl yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r arolwg hwn neu ar wahân gan yr arolygwyr.
- Cafodd hanesion personol sy'n ymddangos yn y testun eu byrhau oherwydd cyfyngiadau gofod, ond y geiriau a ddefnyddir yw'r rheiny a ddefnyddiwyd gan y bobl wrth sôn am eu profiadau

Rhagarweiniad

Rhagarweiniad

Dros genedlaethau, bu pobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl yn 'bell o'r golwg a phell o'r meddwl'. Gadawyd grŵp o'n dinasyddion wedi'u hymyleiddio a'u cau allan o'r iawnderau mwyaf sylfaenol. Yn yr 21ain ganrif, mae ein ffyrdd o edrych ar iechyd meddwl yn newid, ac yn newid yn gyflym. Mae llawer o bobl â chyflyrau iechyd meddwl yn cyfrannu fel dinasyddion cyfartal yn ein cymdeithas. Ond un dangosydd pwysig o'n dull o feddwl fel cymdeithas yw sut byddwn ni'n darparu cynhorthwy ar gyfer y rhai sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf er mwyn iddynt fedru chwilio am ac aros mewn gwaith. Tra bod newid agweddau'n bwysig, y gwir fesur o lwyddiant yw newid ymddygiad, ac mae cynyddu cyfleoedd cyflogaeth pobl â chyflwr iechyd meddwl yn fesur amlwg a phendant o hynny. Er gwaethaf y cynnydd a wnaethpwyd hyd yma, mae cryn bellter i'w deithio eto, ac mae'r hanesion o gyfleoedd a gollwyd a bywydau coll yn peintio darlun grymus o realiti bywyd ar gyfer cannoedd o filoedd o bobl yn y DU.

Felly roedd yn anrhydedd, er braidd yn syndod, i ni gael ein gwahodd i gynnal yr arolwg hwn i ddulliau y medrem eu rhoi ar waith i leihau'r lefelau echrydus o uchel o ddiweithdra ymhlith pobl â chyflwr iechyd meddwl a'r costau personol, cymdeithasol ac economaidd cysylltiedig, a'r gwastraff llwyr o dalent ddynol. Mae hwn yn bwnc sy'n agos at galonnau'r tri ohonom.

Mae'r miloedd o bobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl mwy difrifol y cawsom y fraint o weithio gyda nhw dros flynyddoedd lawer wedi sôn llawer wrthym am bwysigrwydd gwaith ym mywydau pobl a'r canlyniadau ofnadwy sy'n deillio o segurddod gorfodol. Adroddwyd yn eang ynghylch costau economaidd uniongyrchol y gwastraff hwn o botensial dynol, ond dim ond yn awr y rhoddir sylw haeddiannol i'r canlyniadau anuniongyrchol o fethu â defnyddio'r gweithlu mawr potensial hwn. Deallir llai fyth am y costau personol anferth i iechyd a lles unigolion a'u teuluoedd. Mae bod heb waith yn dwyn eu hunaniaeth, eu statws, eu rhwydweithiau cymdeithasol a'u hymdeimlad o bwrpas oddi ar bobl. Mae'r rheiny sydd eisoes wedi'u cau allan gan y rhagfarn a'r anffafiaeth sy'n amgylchynu cyflyrau iechyd meddwl yn cael eu gyrru ymhellach tua'r ymylon trwy beidio â chael y cyfle i ddefnyddio eu talentau a chyfrannu at eu cymunedau trwy gyfrwng gwaith.

Gwyddom fod gan bobl â chyflyrau iechyd meddwl y gallu i fynd ar drywydd gyrfaoedd llwyddiannus a'u bod, yn wir, yn gwneud hynny. Gwyddom fod y rhan fwyaf ohonynt yn ysu am gyflogaeth daledig – a dweud y gwir, mae gan bobl â phroblem iechyd meddwl y raddfa uchaf o fod 'eisiau gweithio' o'r holl grwpiau anabl. Gwyddom fod cyflogaeth addas yn gwella iechyd meddwl a gall warchod rhag ailwaelu. Mae cyfoeth o dystiolaeth ymchwil yn bodoli sy'n dangos sut gallwn ni helpu pobl â chyflwr iechyd meddwl i wireddu eu uchelgeisiau, ond serch hyn, yn y rhan fwyaf o feysydd, rydym wedi methu â darparu'r cynhorthwy hwn. Ac mae'r nifer o bobl â chyflwr iechyd meddwl sy'n ddi-waith yn parhau i gynyddu

Rhodddwyd y neges i ormod o bobl, gan weithwyr iechyd proffesiynol a chan gymdeithas yn fwy cyffredinol, nad yw gwaith yn bosibilrwydd realistig iddynt hwy. Ac nid yw'n syndod i neb fod llawer wedi credu'r negeseuon hyn ac wedi rhoi'r ffidil yn y to

ynghylch eu gobeithion. Trawyd ni'n arbennig gan yr effaith ar bobl ifainc sy'n chwilio am waith ac sydd â chyflwr iechyd meddwl. Dywedodd nifer ohonynt wrthym sut derbyniasant negeseuon anghyson gan fathau gwahanol o wasanaethau. Yn ogystal, roeddent i gyd yn awyddus i ddod o hyd i waith a derbyn cynhorthwy. Mae cyfle enfawr yn bodoli, sy'n dwyn buddion personol, cymdeithasol ac economaidd yn ei sgil, i sicrhau gall pobl ifengach gyfrannu fel dinasyddion cyfartal yn ein cymdeithas. Gwyddom fod y grŵp hwn yn llai tebygol o ddiodeff anffafiaeth, felly mae'n bwysicach fyth eu bod yn derbyn neges o gynhorthwy a gobaith, ac nid un o besimistiaid ac anobaith.

Ein nod, yn yr arolwg hwn, yw cynnig dulliau o wrthdroi'r duedd o ddiweithdra ar gyfer pobl â chyflwr iechyd meddwl. Wrth reswm, gwell atal clwy' na'i wella. Mae'n hollbwysig ein bod yn ymdrechu i atal pobl sy'n datblygu cyflyrau iechyd meddwl rhag cwmpo allan o'r farchnad waith a'u galluogi i wneud cynnydd yn eu gyrfaoedd. Cychwynnwyd nifer o raglenni er mwyn helpu pobl sy'n datblygu cyflyrau o'r fath i gadw eu swyddi. Fodd bynnag, mae rhai pobl yn datblygu cyflwr iechyd meddwl cyn iddynt gael y cyfle i ddechrau eu bywydau gwaith, ac eraill nad allant barhau i weithio pan ddaw eu problemau i'r wyneb. Cyfeirir yr arolwg hwn tuag at helpu'r bobl hyn â chyflwr iechyd meddwl.

Ein maes gorchwyl oedd gwneud cynigion y medrid eu rhoi ar waith yn realistig yn y tymor byr i ganolig, heb unrhyw adnoddau newydd na deddfwriaeth gynradd newydd.

Wrth ymgymryd â'r gorchwyl hwn, mae arnom ddyled i'r cannoedd o bobl sydd wedi cyfrannu eu gwybodaeth arbenigol a'u profiad i'r arolwg. Yn fwyaf arbennig hoffem ddiolch i'r bobl hynny â chyflwr iechyd meddwl a fuont yn hael wrth rannu eu profiad a'u syniadau gyda ni, a'n tîm cynhorthwy arolwg o dan arweiniad medrus Nick McGruer: Harriet Cameron, Frank Davies, Mandy Langdon, Derek Lowden, Roger Morgan, Emma Ward a Mark Wilson. Ni fedrem fod wedi cyflawni hyn hebdo'ch chi.

Sylweddolwn fod y dirwasgiad cyfredol yn gwneud y gwaith o gaffael cyflogaeth yn fwy anodd i bawb. Fodd bynnag, ni chredwn fod hyn yn golygu y dylem roi'r gorau i'r gobaith o helpu mwy o bobl â chyflwr iechyd meddwl i gael mynediad i gyflogaeth. Gan fod cyflogaeth mor bwysig i bobl â chyflwr iechyd meddwl, dyma'r union amser i ailddyblu ein hymdrechion i'w cynorthwyo yn ôl i'r gwaith. Mewn dirwasgiadau blaenorol golygodd diffyg cynhorthwy fod gormod o bobl â chyflwr iechyd meddwl wedi cael eu gadael ar ôl ar fudd-daliadau. Felly mae'n hanfodol ein bod yn rhoi mesurau yn eu lle nawr, er mwyn sicrhau fod pobl â chyflwr iechyd meddwl yn derbyn y cynhorthwy maent ei angen er mwyn manteisio ar yr adferiad economaidd.

Sylweddolwn fod rhai pobl yn bodoli y bydd y cynigion a wnaethom ar eu cyfer yn aneffeithiol. Bydd rhai angen mwy o gynhorthwy ac addasiadau nag a ellir eu fforddio yn y cyfnod economaidd anodd a wynebwn yn awr. Bydd eraill sydd, ar ôl blynyddoedd lawer o ddisgwyliadau isel, unigedd mewn amgylchfydoedd arwahanedig a methiant i ddarparu'r cynhorthwy a fyddai wedi eu helpu i fynd ar drywydd eu huchelgeisiau, wedi rhoi'r gorau iddi o safbwynt eu sefyllfa a'u posibiliadau eu hunain. Hwyrach bod muriau'r hen wallgofdai wedi'u dymchwel, ond mae llawer o bobl a gawsant eu 'sefydliadu' mewn cymunedau arwahanedig ac wedi colli pob rôl a hunaniaeth ar

wahân i'r un o 'glaf meddyliol'. Rhaid i ni beidio â rhoi'r gorau i ymdrechu i helpu pobl o'r fath i adennill eu hyder a symud ymlaen yn eu bywydau, ond bydd yn anodd, ac efallai'n amhosibl, i ailgynnu eu huchelgeisiau a'u hunangred blaenorol. Ni chredwn y dylid cosbi'r bobl hyn am fethiannau hirdymor system ofal nad oedd ganddynt fawr ddim rheolaeth drosti, a chredwn ei bod yn anesgusodol yn foisol i ganiatáu i genhedlaeth arall eto gael ei chondemnio i fywyd o anobaith

Fodd bynnag, rydym yn hyderus, ar sail y dystiolaeth a welsom ni, y gall y cynlluniau rydym yn eu cynnig gael eu rhoi ar waith yn ymarferol o fewn adnoddau sy'n bodoli eisoes, ac y gallant wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ragolygon cyflogaeth llawer o bobl gydag ystod o gyflyrau iechyd meddwl, gan gynnwys y rheiny sy'n wyneb heriau mwy difrifol a chymhleth.

Rhaid i ni weithredu nawr os nad ydym yn mynd i gondemnio cenhedlaeth arall o bobl â chyflyrau iechyd meddwl i oes o ddiweithdra.



Rachel Perkins



Paul Farmer



Paul Litchfield

Rachel Perkins yw awdur arweiniol yr arolwg hwn ac mae'n Gyfarwyddwraig Sicrwydd Ansawdd yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Meddwl De Orllewin Llundain a San Siôr. Daw â thri phersbectif gwahanol i'w harweiniad o'r arolwg hwn. Treuliodd gyfran fawr o'i gyrfa o 30 mlynedd o fewn gwasanaethau iechyd meddwl, yn sefydlu rhaglenni er mwyn helpu pobl â chyflwr iechyd meddwl i gaffael mynediad i gyflogaeth daledig. Yn ail, o ganlyniad i'r rhaglenni hyn, mae hi wedi cyflogi llawer o bobl gydag ystod o gyflyrau iechyd meddwl. Yn drydydd, fel rhywun sy'n byw gyda chyflwr iechyd meddwl hirdymor, mae'n gwybod pa mor bwysig bu ei gwaith o ran ei galluogi i fyw bywyd boddhaus, cyfrannog ac a werthfawrogi, i fod yn fwy na 'chlafr meddyliol'.

Paul Farmer yw Prif Weithredwr Mind a bu'n gweithio ym maes iechyd meddwl am bron i 20 mlynedd. Fel ymgyrchwr dros iawnderau cyfartal ar gyfer pobl sy'n dioddef problemau iechyd meddwl, mae wedi gweld pwysigrwydd darparu cynhorthwy ar gyfer pobl, yn y dull gorau posib, er mwyn iddynt gyflawni eu nodau. Mae'r amgylchfyd cyfredol yn heriol ar gyfer llawer o bobl, ond mae'n hanfodol fod y Llywodraeth yn rhoi'r cynhorthwy i bobl maent ei angen mewn dull nad yw'n bygwth, ond yn galluogi. Fel cyflogwr, mae Mind yn darparu cynhorthwy ar gyfer llawer o weithwyr sydd â chyflwr iechyd meddwl er mwyn iddynt fedru aros yn y gwaith.

Paul Litchfield yn feddyg galwedigaethol gyda diddordeb arbennig mewn iechyd meddwl yn y gwaith. Fel arweinydd dros ei arbenigedd yn y maes hwn ers blyneddol lawer bellach, bu'n ceisio hybu gwell dealltwriaeth o'r pynciau ymhlith ei gydweithwyr iechyd proffesiynol a'r gymuned cyflogi ehangach. Ers dyfod yn Brif Swyddog Meddygol ar gyfer BT yn 2001, mae wedi ffocysu ar greu fframwaith ac arfau ymarferol er mwyn helpu pobl â chyflyrau iechyd meddwl i gaffael gwaith, i hyrwyddo gwelliant o ran cadw swyddi ac i feithrin gwelliant mewn lles meddwl ar gyfer yr holl weithlu. Gellir mesur y buddion ar gyfer y cwmni mewn termau ariannol ac ar gyfer gweithwyr unigol yn nhermau'r effaith ar eu hiechyd a'u hunan-barch.

Crynodeb Gweithredol

Gwireddu uchelgeisiau: Cynhorthwy
cyflogaeth gwell ar gyfer pobl â chyflwr
iechyd meddwl

Golwg gyffredinol a phrif argymelliadau	10
Yr heriau a wynebir gan bobl â chyflwr iechyd meddwl	11
Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol	11

Golwg gyffredinol a phrif argymelliadau

Mae pobl â chyflyrau iechyd meddwl yn parhau i fod ymhlith y rhai mwyaf anghynwysedig o fewn ein cymdeithas. Ac nid yw'r anghynhwysiant hwn yn fwy amlwg yn unman nag yn y gweithle. Mae dros filiwn o bobl â chyflyrau iechyd meddwl ar fudd-daliadau lles ac mae cyfanswm y nifer sy'n ddi-waith mwy na thebyg yn ddwywaith y ffigwr hwn.

Gwyddom fod:

- cyflogaeth addas yn gwella iechyd meddwl a lles yn weithredol;
- gan bobl â chyflyrau iechyd meddwl y gallu i fynd ar drywydd gyrfaedd llwyddiannus a'u bod, yn wir, yn gwneud hynny; a bod
- y rhan fwyaf o bobl â chyflwr iechyd meddwl sy'n ddi-waith eisiau bod mewn cyflogaeth daledig.

Serch hyn, mae cyfuniad o ragfarn ac anffafiaeth, disgwyliadau isel, a methiant i ddarparu'r cynhorthwy angenrheidiol, yn parhau i warafun y cyfle i weithio i lawer. Yn rhy fynych, mae'r methiant hwn yn arwain at wangalonni ac anobaith. Yn wyneb y delweddau negatif sy'n amgylchynu pobl â chyflwr iechyd meddwl, mae gormod o bobl yn rhoi'r gorau iddi o safbwynt eu sefyllfa a'u posibiladau eu hunain: maent yn derbyn gorfod byw ar ymylon cymdeithas. Mae'n arbennig o bwysig fod pobl ifengach yn derbyn negeseuon calonogol o obaith sy'n eu galluogi i gyfrannu at gymdeithas fel dinasyddion cyfartal.

O'n bodd neu'n hanfodd, mae gan gyflogaeth rôl ganolog yn ein cymdeithas ac mae'n ganolog i fywydau'r rhan fwyaf o bobl. Mae cynyddu mynediad i waith daledig yn hanfodol o ran newid sut gwelir pobl â chyflwr iechyd meddwl yn ein cymdeithas. Mae galluogi pobl â chyflyrau iechyd i gyfrannu eu talentau trwy gyflogaeth daledig yn herio mythau a stereoteipiau ac yn cynnig gobaith i'r rheiny sy'n datblygu cyflyrau o'r fath.

Ym Mai 2009, cawsom ein comisiynu gan yr Ysgrifennydd dros Waith a Phensiynau (Rachel Perkins, gyda chynhorthwy Paul Farmer a Dr Paul Litchfield) i gynnal arolwg o iechyd meddwl a chyflogaeth, gyda ffocws ar sut medrai'r Llywodraeth roi cymorth gwell i bobl â chyflyrau iechyd meddwl sydd allan o waith, er mwyn iddynt wireddu ei huchelgeisiau cyflogaeth.

Cynhaliwyd yr arolwg hwn yng nghyd-destun nifer o fentrau iechyd meddwl a chyflogaeth, ar draws holl rychwant cyflogaeth, ar draws y llywodraeth a ledled Prydain Fawr. Mae'r arolwg yn ategu ac yn ymestyn y mentrau hyn trwy ffocysu ar y bobl hynny â chyflwr iechyd meddwl sy'n ddi-waith. Mae'n ystyried y bobl hynny sy'n profi cyflyrau 'cyffredin' neu 'bychan i gymedrol' a'r rheiny sydd â chyflyrau 'difrifol', p'un ai ydynt yn cael eu trin trwy ofal cynradd neu gan wasanaethau iechyd meddwl eilaidd a heb ystyried y budd-daliadau diweithdra maent yn eu derbyn.

Nid oedd o fewn maes gorchwyl yr arolwg hwn i gynnig ad-drefniad sylfaenol o'r system budd-daliadau lles. Gan weithio o fewn y fframwaith sy'n cael ei weithredu, ein bwriad oedd gwneud cynigion y medrid eu rhoi ar waith yn realistig yn y tymor byr i ganolig er

mwyn rhoi cymorth gwell i bobl â chyflwr iechyd meddwl, nad yw rhaglenni sy'n bodoli eisoes wedi cwrdd â'u hanghenion, i gaffael swydd a mynd ar drywydd bywydau gwaith llwyddiannus.

Yr heriau a wynebir gan bobl â chyflwr iechyd meddwl

Mae'r addasiadau sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi pobl anabl i gael mynediad i gyflogaeth yn dueddol o ganolbwyntio ar addasu'r amgylchfyd ffisegol, cynhorthwy ychwanegol er mwyn dysgu'r swydd neu gymorth ag iaith. Gall rhywun â chyflyrau iechyd meddwl fod angen y rhain, ond yn fwy aml mae'r rhwystrau'n llai amlwg a phendant.

- Yn nodweddiadol mae cyflyrau iechyd meddwl yn codi a gostwng a gall fod yn anodd rhagweld pryd mae'r anwadaliadau hyn yn mynd i ddigwydd.
- Maent yn effeithio ar allu rhywun i drafod y byd cymdeithasol, yn hytrach na byd ffisegol gwaith.
- Nid ydynt yn amlwg ar unwaith ac maent yn peri ofn oherwydd y mythau a'r stereoteipiau sydd ynghlwm wrthynt.
- Mae gweithgarwch cyflogaeth addas yn gwella iechyd meddwl yn weithredol ac yn gwarchod rhag ailwaelu.

Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol

1. Cynyddu cynhwysedd a chwalu mythau

Gall rhai pobl â chyflwr iechyd meddwl ddefnyddio gwasanaethau prif ffrwd o fudd-dal i waith sy'n bodoli eisoes. Ceir pobl eraill y mae eu cyflwr iechyd meddwl yn golygu heb unrhyw amheuaeth bod angen cynhorthwy mwy arbenigol arnynt i gaffael gwaith. Rhwng y ddau begwn hyn ceir grŵp mawr o bobl y medrid eu helpu o fewn strwythurau sy'n bodoli eisoes, petai'r strwythurau hynny wedi'u teilwra'n well i anghenion cyflogaeth pobl â chyflwr iechyd meddwl.

Argymhellwn fod y Llywodraeth yn cymryd nifer o gamau ymarferol er mwyn cynyddu cynhwysedd systemau cyfredol, gan gynnwys:

- adeiladu cysylltau mwy effeithiol rhwng DWP, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol;
- cynyddu i ba raddau gall gwasanaethau o fudd-dâl i waith gwmpasu anghenion pobl â chyflwr iechyd meddwl trwy, er enghraifft, wella hyfforddiant a sicrhau preifatrwydd a gweld yr un ymgynghorydd bob tro;
- cynyddu i ba raddau y mae gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn mynd i'r afael ag anghenion cyflogaeth pobl â chyflwr iechyd meddwl trwy sicrhau, er enghraifft, bod pynciau galwedigaethol yn derbyn sylw mewn asesiadau ac ymgynghoriadau ac yn ffurfio rhan o gynlluniau trin a chynhorthwy;

- cynyddu i ba raddau y mae'r cynhorthwy o ddydd i ddydd a ddarparir gan y DWP, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn cwrdd ag anghenion pobl â chyflwr iechyd meddwl sy'n chwilio am waith a'u cyflogwyr potensial trwy, er enghraifft, ddarparu gwybodaeth a chymorth gwell wrth reoli cyflyrau iechyd meddwl; a
- cefnogi mentrau er mwyn mynd i'r afael ag achosion o gamddealltwriaeth ymhlith cyflogwyr, gweithwyr a'r gwasanaethau sy'n eu cynorthwyo.

2. Darparu mwy o gynhorthwy

Ar gyfer y rheiny sydd angen cynhorthwy dwysach, mwy arbenigol nag y gellir ei gynnig o fewn strwythurau cyfredol, argymhellwn y dylai'r Llywodraeth weithredu gweledigaeth arloesol, radical o 'fwy o gynhorthwy' yn unol â'r sail dystiolaeth eang erbyn hyn yn y maes: 'Gosodiad a Chynhorthwy Unigol'. Mae hyn yn integreiddio triniaeth a chynhorthwy cyflogaeth ac yn ffocysu ar gyflogaeth agored, gystadleuol sy'n cyd-fynd ag anghenion a hoffterau person. Cynorthwyr pobl i gael swydd gynted ag y bo modd ac yna rhoddir cynhorthwy wedi'i bersonoli i'r cyflogwr a'r gweithiwr cyhyd â bod ei angen.

- Dylai gwasanaethau iechyd a chymdeithasol fod yn gyfrifol am sicrhau fod y rheiny sydd ei angen yn derbyn y cynhorthwy dwys, ychwanegol maent ei angen tu hwnt i beth a ddarparir trwy wasanaethau o fudd-dal i waith er mwyn helpu pobl i gael gwaith. Dylai Arbenigwyr Cyflogaeth gael eu plannu o fewn gofal cynradd a thimau iechyd meddwl eilaidd er mwyn sicrhau cynhorthwy galwedigaethol a chyflogaeth integredig. Gan weithio fel rhan o dîm iechyd meddwl aml-ddisgyblaeth, gall Arbenigwyr Cyflogaeth naill ai gael eu cyflogi'n uniongyrchol gan wasanaethau iechyd a chymdeithasol neu'r gwasanaeth a gomisiynir o ddarparwr allanol, ond rhaid iddynt weithio fel rhan o dimau clinigol iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.
- Dylai DWP fod yn gyfrifol am ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn darparu'r cymorth hyblyg, wedi'i deilwra i'r unigolyn y mae ar rai pobl ei angen er mwyn helpu'r grŵp hwn i gadw gwaith trwy Fynediad at Waith wedi'i ddiwygio. Gall cynhorthwy o'r fath gael ei gomisiynu oddi wrth unrhyw asiantaeth leol gyda'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol mewn cyflogaeth â chynhorthwy ar sail dystiolaeth ar gyfer pobl â chyflwr iechyd meddwl. Yn aml gall hyn gynnwys cyflenwyr o'r sector gwirfoddol, ond mae'n bosibl bydd gwasanaethau iechyd a chymdeithasol a'r sector gwirfoddol yn addas mewn rhai achosion.
- Er mwyn hwyluso symud o fudd-daliadau i waith, dylai DWP hefyd sicrhau argaeledd gosodiadau hyfforddi ag iddynt derfyn amser, ochr yn ochr â chwilio am swydd, ar gyfer y rheiny y gallai fod angen iddynt ymgynefino â byd gwaith a'i gwneud yn bosibl i bobl ddechrau gweithio am nifer gyfyngedig o oriau a chynyddu'r rhain yn raddol.

3. Monitro effeithiol ac ysgogyddion newid

Mae galluogi pobl â chyflwr iechyd meddwl i gaffael a chadw cyflogaeth o reidrwydd yn ymwneud â gwasanaethau o fudd-dal i waith, iechyd a chymdeithasol. Rhaid i gyflogaeth fod yn rhan graidd o waith gwasanaethau iechyd a chymdeithasol a rhaid i helpu pobl â chyflwr iechyd meddwl fod wrth galon gwaith y gwasanaethau o fudd-dal i waith. Er mwyn gwireddu hyn, mae'r arolwg yn argymhell fod y Llywodraeth yn sicrhau fod:

- gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn monitro canlyniadau cyflogaeth yn rheolaidd ar gyfer y bobl maent yn eu gwasanaethu;
- gwasanaethau DWP yn monitro darpariaeth gwasanaeth a chanlyniadau'n rheolaidd ar gyfer pobl â chyflwr iechyd meddwl maent yn eu gwasanaethu; a bod
- darpariaeth gwasanaeth a chanlyniadau cyflogaeth, ar gyfer pobl â chyflwr iechyd meddwl yn ffurfio rhan o'r meini prawf comisiynu craidd, dangosyddion perfformiad allweddol a meini prawf archwilio ar gyfer y gwasanaethau'r DWP, iechyd a chymdeithasol.

Gellir gwneud cynnydd pwysig tuag at weithredu'r cynigion a wneir yn yr arolwg hwn o fewn adnoddau sy'n bodoli eisoes: trwy adolygu blaenoriaethau, ail-gydbwyso adnoddau a rhoi rhywbeth gwell yn lle gwasanaethau traddodiadol sydd wedi bod yn gymharol aneffeithiol neu wedi cyflawni canlyniadau cyflogaeth gwael. Tra disgrifir nifer o ddulliau posibl o wneud hyn mae'n amlwg taw comisiynwyr lleol sydd i benderfynu ynghylch y dulliau mwyaf effeithiol o gyflawni'r canlyniadau dewisol yn eu meysydd.

Dylai'r nod fod i gau'r bwlch yn fwy a mwy rhwng cyfraddau cyflogaeth ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol a'r rheiny ar gyfer pobl â chyflyrau iechyd meddwl. Rydym yn hyderus bydd y dull o fynd ati a gynigir yn yr arolwg hwn yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at gyflawni'r nod hwn.

Mae fersiwn lawn o'r cyhoeddiad hwn mewn fformat print safonol Saesneg ar gael oddi wrth siopau llyfrau TSO (Y Llyfrfa), ac mae ar gael yn ogystal ar-lein yn:

www.dwp.gov.uk/realising-ambitions

Neu, os gofynnir amdano oddi wrth:

Disability and Work Division
Department for Work and Pension
Caxton House
Tothill Street
London SW1H 9NA
Teleffon: 020 7449 5539
E-bost: nick.mcgruer@dwp.gsi.gov.uk

Gellir trefnu bod copïau o'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau amgen os bo'r angen.

ISBN: 978-1-84947-129-9
© Hawlfraint y Goron 2009
Adran Gwaith a Phensiynau
Rhagfyr 2009
www.dwp.gov.uk